**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref KW/01079/21

11 Chwefror 2021

Annwyl

Diolch am eich e-bost, dyddiedig 3 Chwefror, ynghylch addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhowys.

Yn dilyn Adolygiad Strategol o Addysg ym Mhowys lansiodd y cyngor strategaeth newydd ar gyfer trawsnewid addysgu ym Mhowys 2020-2030. Mae'r strategaeth 10 mlynedd yn cynnwys pedwar nod strategol ac un o'r nodau hynny yw "Gwella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod allweddol." At hynny, bydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y cyngor ar gyfer y ddegawd nesaf yn cael ei gysoni'n llawn gyda'r strategaeth trawsnewid addysg.

Ar hyn o bryd, mae trafodaethau'n parhau ynghylch lleoliad darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir a does dim cynnig wedi mynd gerbron y Cabinet hyd yma. Hoffwn ddiolch i chi am eich diddordeb ac rwy'n siwr y bydd cyfle i gynnig rhagor o fewnbwn unwaith y bydd ymgynghoriad ynghylch natur a lleoliad y ddarpariaeth uwchardd cyfrwng Cymraeg yn cael ei lansio.

Yn gywir

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.